Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, nos Fercher, 18 Chwefror 2026, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, S. Feeney, K. R. Jones, J. Kenney, W. Price,
Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol
Mrs M. A. Blakeley-Walker (arsylwr)
Mrs E. M. Chard (arsylwr)
Mrs J. M Evans (arsylwr)
A. R. James (arsylwr)
Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

**33. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs S. Connolly a Mrs D. L. King.

**34. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.*

**35. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| i. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Cob and Pen, 153 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1UF<br><br>**WARD:** Bodfor |

| | |
|---|---|
| | **<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS:</u>** 45/2025/0608/AD<br><br>**<u>DISGRIFIAD:</u>** Arddangos arwyddion newydd a murlun ar dalcen yr adeilad.<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Graeme Robinson<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| ii. | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Elusen Sense, 48 - 50 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1HA<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD:</u>** J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2025/0612/PF<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Adnewyddu'r gwagle manwerthu sy'n bodoli eisoes ar y llawr gwaelod, adfer a newid y lloriau uwchben sy'n wag yn nawr fflat, adeiladu estyniad trydydd llawr gyda tho mansard a gwaith cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Ms Christine Moreland<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| iii. | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Coleg Llandrillo, Ffordd Cefndy, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2HG<br><br>**<u>WARD</u>:** Cefndy<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs D. L. King<br>Mrs R. S. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2026/0001/MD<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Dymchwel y ganolfan technoleg cerbydau modur (defnydd Dosbarth D1) sy'n bodoli ac adeiladu adeilad cerbydau modur newydd, deulawr, (defnydd Dosbarth D1), yn cynnwys gweithdai, ystafelloedd addysgu, swyddfeydd, mannau cymdeithasol ac atodol, ynghyd â gwaith allanol cysylltiedig, tirlunio a chreu llecyn awyr agored newydd i'r myfyrwyr<br><br>**<u>YMGEISYDD:</u>** Mr Wyn Thomas (Grŵp Llandrillo Menai (GLlM))<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| iv | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u>** 88 Ffordd Pendyffryn, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4DD<br><br>**<u>WARD:</u>** Tŷ Newydd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: M. Blackwell |

| | |
|---|---|
| | A. Walker<br>Miss C. L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS**: 45/2025/0572/HH<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad dormer yn gysylltiedig â chynllun arfaethedig i newid gwagle atig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Ryan Bailie<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| v. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn (rhan o ardd) 18 Ffordd Dyserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4DP<br><br>**WARD:** Tŷ Newydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: M. Blackwell<br>A. Walker<br>Miss C. L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0010/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu un annedd sengl a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Dean Billingsley<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| vi | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Ysbyty Frenhinol Alexandra, Rhodfa'r Môr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3AS<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. M. Evans<br>K. R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0035/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Adleoli'r uned gofal cam i lawr y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Ieuenctid a Glasoed (CAMHS) i hwyluso datblygu ochr y safle, yn cynnwys datblygu llwybrau troed i'r uned ac ardal gardd i'r plant<br><br>**YMGEISYDD:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| vii | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Adeilad James, 4a Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2PW<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs J. Chamberlain-Jones<br>Mrs E. M. Chard<br>Mrs S. Connolly |

| | |
|---|---|
| | **RHIF Y CAIS:** 45/2026/0039/PF<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid swyddfeydd yn annedd a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr a Mrs Mike Trefor<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Gwrthwynebiad oherwydd gor-ddwysau'r safle, gan arwain at lefel datblygu anghynaliadwy, a'r risgiau diogelwch y ffyrdd sy'n gysylltiedig â thri mynediad i gerbydau i briffordd brysur gyda chroesfan i gerddwyr ac arosfan bws yn union y tu allan i flaen yr adeilad.* |
| viii | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Windsor Court, Ffordd y Cilgant, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** J. Kenny<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0048/TC<br><br>**DISGRIFIAD:** Torri un goeden ffawydden mewn Ardal Gadwraeth<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Chesney Saxon (Sherratt Group)<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| ix | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Cartref Preswyl Dewi Sant, 36 Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3AN<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs J. M. Evans<br>K. R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0320/MD<br><br>**DISGRIFIAD:** Dymchwel byngalo sy'n bodoli eisoes ac adeilad tri bloc o fflatiau'n cynnwys 17 fflat byw gyda chymorth, yn cynnwys ffurfio mynedfeydd a mannau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr David Waltho (St Davids Care Limited)<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Gwrthwynebiad ar sail gor-ddwysau'r safle a phryderon ynghylch rheoli'r traffig.* |

**36. YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO**

Hysbysodd y Cadeirydd y derbyniwyd ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i ddatblygu 23 annedd (cartrefi fforddiadwy) ar dir ym Maes Emlyn, Y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r aelodau'n ymateb yn uniongyrchol i'r datblygwr gydag unrhyw bryderon yn deillio o'r ymgynghoriad.*

## 37. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………......